

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL  
CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

2001 Rhif 3242 (C.271)

2001 No. 3242 (C.271)

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR  
A458 (TRE-WERN, POWYS)  
(TERFYN CYFLYMDER 40 MYA)  
2001**

**THE A458 TRUNK ROAD  
(TREWERN, POWYS) (40 MPH SPEED  
LIMIT)  
ORDER 2001**

**WEDI'I WNEUD 7 Awst 2001**

**MADE 7 August 2001**

**YN DOD I RYM 13 Awst 2001**

**COMING INTO FORCE 13 August 2001**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A458 (Amwythig - Dolgellau) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 84(1) a (2) o Ddeddf Rheoli Traffig Ffyrdd 1984(a) a phob pŵer galluogi arall ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol(b):-

The National Assembly for Wales, as traffic authority for the A458 (Shrewsbury - Dolgellau) Trunk Road (hereinafter referred to as "the trunk road") in exercise of the powers conferred upon it by section 84(1) and (2) of the Road Traffic Regulation Act 1984 (a) and all other enabling powers, and after consultation with the Chief Officer of the Dyfed-Powys Police, hereby makes the following Order(b):-

- (a) 1984 p.27; amnewidiwyd is-adran 84(1) gan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40), adran 45; amnewidiwyd is-adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22), adran 168.
- (b) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, rhoddyd y pwerau hyn bellach i Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â Chymru.

- (a) 1984 c.27; sub-section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45; section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168.
- (b) By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, these powers are now conferred upon the National Assembly for Wales in relation to Wales.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 13 Awst 2001, a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A458 (Tre-wern, Powys) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 2001.

2. Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd modur fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr yn y darn hwnnw o'r gefnffordd yn Sir Powys, sy'n ymestyn o bwynt 62 metr i'r gorllewin o ganol ei chyffordd â'r U2248 Sale Lane tua'r gogledd-ddwyrain am 1584 metr hyd at bwynt 271 metr i'r gogledd-ddwyrain o ganol ei chyffordd â braich orllewinol yr U2245 Garreg Bank.

Llofnodwyd ar ran Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd

Dyddiedig y 7 Awst 2001



**D M TIMLIN**  
Pennaeth yr Is-Adran Gweinyddu  
Ffyrdd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

1. This Order shall come into force on 13 August 2001 and may be cited as the A458 Trunk Road (Trewern, Powys) (40 MPH Speed Limit) Order 2001.

2. No person shall drive, cause or permit any motor vehicle to proceed at a speed exceeding 40 miles per hour in that length of the trunk road at Trewern in the County of Powys, which extends from a point 62 metres west of the centre of its junction with the U2248 Sale Lane in a north easterly direction for 1584 metres to a point 271 metres northeast of the centre of its junction with the western leg of the U2245 Garreg Bank.

Signed on behalf of the Assembly  
Minister for Environment

Dated the 7 August 2001



**D M TIMLIN**  
Head of Roads Administration Division,  
National Assembly for Wales